

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y flwyddyn 2013–14

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2013-2014

Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd cynnydd a'r meysydd i wella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2013-14

Crynodeb

Mae'r Cyngor yn wynebu'r her o orfod darparu gwasanaethau gwell gyda llai o adnoddau ariannol. Mae'r pwyslais cryfach ar hyrwyddo annibyniaeth drwy ymarfer gwaith cymdeithasol, ynghyd â newidiadau i batrwm gwasanaethau gofal a chymorth, yn cael eu gweld fel ffactorau allweddol i gyflawni amcanion y Cyngor o ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon a chynaliadwy. Mae cynnydd wedi'i wneud ac mae strategaethau yn eu lle i wella ymhellach.

Rhoddir mwy o bwyslais ar ymyrryd yn fuan i helpu pobl cyn i'w hanghenion gynyddu pan fydd angen gofal a chymorth mwy dwys arnynt. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cysylltiadau gwell a mwy o weithio'n integredig â'r bwrdd iechyd lleol ac wrthi'n datblygu, gyda'i bartneriaid iechyd, proffil o bobl gydag anableddau dysgu er mwyn creu gwasanaethau ataliol mwy integredig. I ddatblygu strategaeth gomisiynu effeithiol, rhaid cael systemau gwell sy'n cofnodi'n gywir y proffil anghenion llawn yn y Sir ynghyd ag unrhyw fylchau mewn gwasanaeth.

Mae tystiolaeth o gynnydd yn y gwasanaethau plant, yn enwedig o ran prydlondeb adolygiadau gofal a chymorth i bobl sy'n gadael gofal. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwella prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant yn flaenoriaeth allweddol. I raddau llai, mae cynnydd hefyd wedi'i wneud yn y gwasanaethau oedolion. Erys sialensau o hyd wrth i'r gwasanaethau cymdeithasol weithio drwy gyfnod o newid a cheisio gweithio'n fwy integredig â'u partneriaid. Lle mae gweithio'n integredig yn digwydd, mae tystiolaeth eisoes o ganlyniadau da i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 drwy ei raglen drawsnewid, gyda'i chynnydd yn cael ei graffu ar sawl lefel. Mae'r cyfarwyddwr wedi cyflwyno amrywiol gyfleoedd i gyfathrebu'r cynnydd hwn i ymarferwyr ac yn gofyn am adborth. Mae hyn yn helpu i sicrhau cydddealltwriaeth o amcanion y Cyngor.

Mae gan y cynllun gweithredu Mwy Na Geiriau potensial i ddarparu fframwaith cryfach wrth ddarparu statws cyfartal i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg.

Yr ymateb i feysydd gwella'r llynedd

Maes gwella a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2013-14
Cynnydd gyda'r strategaeth rhianta corfforaethol. Hyn i gynnwys amserlen ar gyfer mesurau sydd angen eu gweithredu.	Nid yw CSSIW yn ymwybodol bod amserlen wedi'i gosod ar gyfer mesurau yng nghynllun gweithredu'r strategaeth rhianta, er bod tystiolaeth o gynnydd mewn meysydd allweddol.
Ymateb mwy effeithiol i bobl sy'n holi dros y ffôn.	Mae dadansoddiad cwynion y Cyngor ei hun yn dangos fod hwn yn parhau i fod yn faes ar gyfer gwella.
Adolygiadau ac ailasesiadau ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig rhai mewn gofal preswyl.	Mae hwn yn faes lle mae cynnydd da iawn wedi'i wneud.
Prydlondeb ailasesiadau pan ofynnir amdanynt gan ddarparwyr gofal.	Fel yr uchod.
Ystyried cyfarpar o fath arall i wella effeithlonrwydd gweithwyr cymdeithasol yn yr ysbyty.	Ni chafodd CSSIW ei ddiweddarau ar gynnydd yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'r gyfradd isel o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n parhau.
Darparu gwybodaeth fwy cywir ar wefan y Cyngor am wasanaethau gofal plant sydd ar gael.	Mae'r wefan wedi gwella. Mae'n cynnwys gwahoddiad i'r gwasanaethau gofal plant ddefnyddio'r wefan i hyrwyddo eu gwasanaethau.
Cwblhau a phrydlondeb adolygiadau o blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal.	Mae prydlondeb adolygu cynlluniau ar gyfer plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal wedi gwella.
Gwella prydlondeb cynlluniau addysg personol i blant sy'n derbyn gofal a / neu ymchwilio i'r rhesymau.	Mae cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn gyda'r perfformiad yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartalog ar draws Cymru.
Ymchwilio i'r rhesymau pam fod nifer yr asesiadau gofalwr yn isel.	Nid yw'n glir a wnaeth y Cyngor gwblhau dadansoddiad o'r nifer sy'n derbyn asesiad gofalwr, ond mae'r ffigur hwn wedi gwella o 35.5% i 39%.
Monitro ac adrodd yn fwy effeithiol ar gynnydd cynlluniau gweithredu, gan gynnwys defnyddio cerrig milltir er mwyn	Nid oes gan CSSIW unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu bod amserlen na cherrig milltir wedi eu hychwanegu at gynlluniau

gallu asesu perfformiad.	gweithredu. Fodd bynnag, mae amrywiol drefniadau ar gyfer craffu a herio yn eu lle.
Sicrhau bod ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn digwydd.	Mae cynnydd da wedi bod yn y cyswllt hwn, gyda chynnydd o 76.8% y llynedd i 90.1% eleni.
Gwella'r canlyniadau i bobl sy'n gadael gofal.	Mae gostyngiad amlwg wedi bod yn nifer y plant sy'n derbyn gofal nad oeddent mewn addysg, gwaith na hyfforddiant yn 19 oed.
Sicrhau bod plant mewn gofal preswyl yn teimlo bod ganddynt lais a bod pobl yn gwrandao arnynt.	Gwnaed mwy o ymdrechion i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i holi eu barn. Mae'r grŵp 'ffrindiau' yn rhoi cymorth gwerthfawr i bobl mewn gofal sy'n mynd ar goll.
Parhau i ddarparu hyfforddiant i staff a nododd fod angen sgiliau a gwybodaeth ychwanegol arnynt.	Darperir ystod eang o hyfforddiant perthnasol, rhywfaint wedi'i drefnu'n benodol i ddelio â meysydd arbenigol.
Cynllunio olyniaeth ac wrth gefn pan fydd pennaeth y gwasanaethau plant yn ymddeol.	Cafodd y swydd hon ei llenwi'n fuan iawn ac mae'r pennaeth gwasanaeth newydd wedi parhau i wneud gwelliannau yn y rhan fwyaf o feysydd yn ei blwyddyn gyntaf yn y rôl.
Sicrhau bod gan aelodau o'r pwyllgor craffu fynediad at ystod eang o adroddiadau cynnydd a pherfformiad.	Mae tystiolaeth o gyfleoedd gwell ar gyfer craffu.

Ymweliadau ac arolygiadau yn ystod y flwyddyn

Cyflawnodd CSSIW arolygiad thematig yn ystod y flwyddyn i adolygu'r cynlluniau diogelu a gofal i blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal sy'n dangos ymddygiad agored i niwed a diofal.

Mae CSSIW wedi cwblhau'r holl arolygiadau o wasanaethau rheoledig yng Nghonwy, gan gynnwys rhai a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ar y cyfan, roedd yr arolygiadau o wasanaethau'r Cyngor ei hun wedi nodi cynnydd a chanlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, yn gynharach yn y flwyddyn canfuwyd bod cartref plant T'ir Na Nog wedi mynd yn groes i'r

rheoliadau gan godi pryderon ynghylch sut oedd gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu cymhwyso. Mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio. Gwnaed argymhellion hefyd i wella gwasanaeth mabwysiadu Conwy.

Cynhaliwyd cyfarfodydd drwy'r flwyddyn â'r cyfarwyddwr ac uwch-swyddogion gwasanaethau cymdeithasol eraill i adolygu perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae CSSIW yn mynychu cyfarfodydd diogelu'n gyson ynghyd â rhai a gynhelir o dan y weithdrefn dyrchafu pryderon ynghylch gwasanaethau oedolion.

Ar ddechrau'r flwyddyn ymwelodd CSSIW ag adran hyfforddiant Conwy i geisio eglurhad pellach ar y data hyfforddi oedd wedi'i ddarparu'r llynedd. Derbyniwyd tystiolaeth bod staff yn derbyn ystod eang o hyfforddiant lefel uchel.

Cafwyd ymweliad â grŵp Cyswllt Conwy ym mis Mawrth i ddysgu am fanteision y fforwm i'r bobl sy'n ei ddefnyddio. Cyfarfu CSSIW â phedwar o bobl oedd yn amlwg wedi eu sbarduno ac yn gyffrous am y rhan oeddent i'w chwarae mewn prosiectau ar ddod. Roedd gan bob un rôl i'w chyflawni ac yn awyddus i rannu'r hyn oedden nhw wedi'i ddysgu.

Cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad corfforaethol llawn o'r Cyngor gan gasglu bod 'y cyngor yn cael ei redeg yn dda ar y cyfan'.

Meysydd i'w hôl-ddilyn gan CSSIW y flwyddyn nesaf

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella ac yn eu rhestru isod. Bwriedir monitro'r cynnydd yn y meysydd hyn drwy gynnal cyfarfodydd ymgysylltu yn ystod y flwyddyn.

- Cynlluniau strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau cymunedol i bobl gyda dementia.
- Adolygiadau mwy prydlon a / neu gynhwysfawr o'r trefniadau gofal i oedolion mewn gofal preswyl.
- Creu proffil o anghenion plant sy'n derbyn gofal ac yn chwilio am lety fel bod cyd-ddealltwriaeth o'r problemau.
- Prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol.
- Cyflawni dadansoddiad o waith comisiynu a datblygu strategaeth gomisiynu.
- Cynnydd parhaus gyda datblygu'r berthynas â BCUHB.
- Bydd CSSIW yn cyfrannu at adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru i weld a yw cynghorau'n cefnogi pobl hŷn yn effeithiol i fyw'n annibynnol, gan gynnwys drwy weithio'n gydgyssylltiedig ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol.

Perfformiad

Llunio gwasanaethau

Oedolion

Mae cynllun 'Un Conwy' y Bwrdd Strategol Lleol ar gyfer 2012-15 yn disgwyl, erbyn 2025, i nifer y bobl dros 65 oed gynyddu o 30% a nifer y bobl dros 85 oed o 60%. Nid yw Conwy wedi datblygu strategaeth gomisiynu sy'n ystyried hyn eto, er bod y wybodaeth sydd wedi'i chyflenwi'n dangos bod datganiad sefyllfa'r farchnad ar y gweill. Nid yw system ddata bresennol Conwy – PARIS – yn cofnodi'n effeithiol yr angen sydd heb ei ddiwallu gan wneud blaengynllunio'n anoddach. Nododd CSSIW yn ystod y flwyddyn nad oedd system yn ei lle i gadw trac ar lefelau meddiannaeth mewn cartrefi gofal nyrsio a phreswyl lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu capasiti yn y Sir. Mae angen dulliau gwell o gofnodi angen a phroffilio'r gwasanaethau sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod poblogaeth sy'n heneiddio'n ffactor allweddol wrth gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol ac yn cydnabod bod angen strategaethau comisiynu sy'n hyrwyddo gweithio'n integredig â'r gwasanaethau iechedd a'r trydydd sector, ac yn symud tuag at ofal mwy hyblyg a chreadigol yn y gymuned. Eleni mae cynnydd wedi bod o 81.2 i 84.5% yn nifer y cleientiaid dros 65 oed sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned; mae'r niferoedd a gefnogir mewn gofal preswyl fwy neu lai'r un fath.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei wasanaeth gofal preswyl dementia yn Llys Elian, gyda chynigion i droi'r cartref yn fodel mwy cartrefol. Mae hyn yn dilyn ymchwil gan *Dementia Care Matters* a chynghor arbenigol gan ei sefydlydd David Sheard a gomisiynwyd gan Gonwy. Mae peth cynnydd eisoes wedi'i wneud gyda'r adeilad a hyfforddi'r staff ac roedd arolygiad diwethaf CSSIW o'r gwasanaeth yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, yn 2012, argymhellodd CSSIW fod angen datblygu'r gwasanaethau cymunedol i bobl gyda dementia ymhellach ac ni wyddom am unrhyw ddatblygiadau a wnaed ers hynny. Mae'n parhau i fod yn faes hollbwysig i'w ddatblygu.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, mae'r Cyngor wedi dechrau ail-lunio gwasanaethau er mwyn gwella lles pobl ag anabledd dysgu a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Mae Strategaeth Atal sy'n hyrwyddo annibyniaeth a galluogi'n cael ei datblygu, a dull mwy graddol o ddarparu gwasanaeth yn cael ei fabwysiadu'n dilyn asesiad o angen lle rhoddir mwy o ffocws ar ganlyniadau.

Yn 2012-13, datblygodd Gonwy flaengynllun gwaith ar gyfer 2013-14 i hwyluso gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau iechedd ac yn ymrwymo i fonitro hyn drwy'r flwyddyn. Mae'r Cyngor yn adrodd bod cynnydd wedi'i wneud ond yn

cydnabod bod angen datblygu'r maes ymhellach; yn enwedig cynllunio ar gyfer strategaeth atal. Mae rhwydwaith anabledd Conwy'n un o'r rhaglenni ar y cyd fydd yn helpu'r Cyngor i asesu maint yr angen gan bobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys rhai nad ydynt yn derbyn gwasanaethau cymdeithasol.

Ar ôl i'r cytundeb partneriaeth blaenorol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ddod i ben yng Ngorffennaf 2013, lluniwyd Memorandwm Dealltwriaeth â chydweithwyr iechyd i sicrhau bod pawb yn dal i fod yn glir beth oedd yr amcanion a'r disgwyliadau. Cymharol ychydig o ffocws sydd wedi bod ar y maes gwasanaeth hwn dros y 12 mis diwethaf.

Plant

Trafodir materion ynghylch risg a statws agored i niwed pobl ifanc ar draws yr asiantaethau partner yn y Panel Amlasiantaethol Strategol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i greu proffil o anghenion ei blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal; mae hyn yn hanfodol os yw'r awdurdod i werthuso effeithiolrwydd ei strategaethau lleoli, parhad ac atal a darogan pa adnoddau fydd eu hangen yn y dyfodol.

Nodwyd y llynedd nad oedd y Cyngor wedi cynnwys amserlen yn ei Strategaeth Rhianta Corfforaethol a chynllun gweithredu. Er na dderbyniodd CSSIW fersiwn fwy diweddar o'r cynllun, dengys dangosyddion perfformiad welliant mewn rhai meysydd cyfrifoldeb allweddol. Mae'r lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal yn fwy sefydlog, gyda llai o blant (i lawr o 10.4% i 6.1%) yn gorfod cael eu lleoli deirgwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn, yn erbyn cyfartalog ar draws Cymru o 8.3%. Mae cynnydd hefyd wedi bod o 85.7% i 91.4% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a ddylai dderbyn ail adolygiad yn y flwyddyn sydd â chynllun parhad yn ei le ar eu cyfer, ond mae'n dal i fod yn is na'r cyfartalog ar draws Cymru o 93.4%. Mae nifer y plant sy'n cychwyn eu lleoliadau cyntaf gyda chynllun gofal yn ei le wedi cynyddu o 84.8% i 91.2%. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartalog ar draws Cymru o 90.9%, fodd bynnag mae rhai awdurdodau'n anelu at a chyflawni 100% yn y maes hwn.

O ran iechyd; gwelodd fwy o blant sy'n derbyn gofal ddeintydd eleni, cynnydd o 95.0% i 99.2%. Ar nodyn llai ffafriol, cafodd lai o blant na'r llynedd asesiadau iechyd neu oeddent wedi cofrestru â Meddyg Teulu. Bydd y pethau hyn yn parhau i gael eu monitro gan y grŵp rhianta corfforaethol.

Mewn addysg, roedd mymryn o gynnydd i 8.7% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a brofodd un newid ysgol neu fwy, ac nid oherwydd trefniadau pontio, ond mae hyn yn dal i fod yn y chwarterl uchaf o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 13.8%. Mae canran y plant sy'n derbyn gofal gyda chynllun addysg personol yn ei le o fewn 20 diwrnod ysgol i gychwyn ysgol wedi gwella o 85.7% i 92.6%.

Yn ôl yr arolygiad plant sy'n derbyn gofal, roedd ystod dda o strategaethau a rhaglenni yn eu lle er mwyn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae pontio'n fwy esmwyth i wasanaethau oedolion wedi bod yn bosibl drwy ddatblygu tîm Pontio. Mae'n golygu bod pobl ifanc yn derbyn cymorth mwy parhaus gan bobl sy'n eu hadnabod.

Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET). Mae 75% o'r bobl ifanc hyn mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yn 19 oed, i fyny o 50% y llynedd. Mae'r prosiect Cysylltiadau Gwaith Newydd wedi helpu i gyflawni'r nod hwn a dylai cylch gwaith y panel NEET helpu i sicrhau cynnydd pellach a rhaglenni newydd yn y maes hwn.

Derbyniodd y defnydd o gynghorwyr personol, i gefnogi ac eiriol dros bobl ifanc drwy'r cyfnod pontio, adolygiadau positif iawn. Dyrannwyd cynghorwr personol i 98.3% o blant sy'n derbyn gofal. Mae'n drefniant a ddisgrifir gan y bobl ifanc fel ffynhonnell wych o wybodaeth, arweiniad a chefnogaeth.

Er i Strategaeth Llety Pobl Ifanc a Strategaeth Ddigartrefedd Pobl Ifanc gael eu datblygu'n ddiweddar, araf deg o hyd yw'r cynnydd gyda'u gweithredu. Nid oes gan yr adran dai drosolwg clir eto ar nifer y bobl sy'n gadael gofal a beth yw eu hanghenion posibl. Rhaid sefydlu cysylltiad cryfach ag anghenion Tai os yw unrhyw flaengynllunio yn y maes hwn i lwyddo.

Meysydd cynnydd

- Meysydd cyfrifoldeb allweddol dros Blant sy'n Derbyn Gofal.
- Trefniadau pontio gwell i wasanaethau oedolion ar gyfer pobl ifanc.
- Pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael mynediad at addysg, gwaith neu hyfforddiant.

Meysydd ar gyfer gwella

- Cynlluniau strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau cymunedol i bobl gyda dementia.
- Proffilio anghenion plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal.
- Gwella cysylltiadau â'r adran Dai i wella canlyniadau i bobl sy'n gadael gofal.

Cael help

Oedolion

Mae ystod dda o wybodaeth ar gael ar-lein ac mae gwefan y Cyngor yn hawdd ei defnyddio. Cynhyrchir taflenni dwyieithog ac mae'r rhain ar gael ym mhrif dderbynfeydd y Cyngor.

Y llynedd, roedd y Cyngor yn cydnabod bod angen gwella prydlondeb ei adolygiadau, yn enwedig i bobl sy'n byw mewn gofal preswyl. Dengys y dangosyddion perfformiad welliant yn y maes hwn, gyda 95.8% o adolygiadau cynlluniau gofal wedi eu cwblhau. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau lle gallai adolygiadau mwy prydlon fod wedi atal argyfwng i rai defnyddwyr gwasanaeth. Daeth rhai adolygiadau, wedi eu hysgogi gan weithdrefn PoVA neu'r weithdrefn dyrchafu pryderon, i'r casgliad bod rhai pobl yn byw mewn cartrefi gofal nad ydynt mwyach yn diwallu eu hanghenion. Mewn un cartref gofal, bu'n rhaid symud saith defnyddiwr gwasanaeth ar ôl i adolygiadau ddarganfod anghenion heb eu diwallu a risgiau uwch i'r bobl hyn. Byddai hyn yn awgrymu bod angen adolygiadau cynt a / neu fwy cynhwysfawr o gynlluniau gofal pobl sy'n byw mewn gofal preswyl.

Cynigiwyd asesiad i ychydig dros 86% o ofalwyr am oedolion – ychydig o dan y cyfartalog Cymru gyfan. Derbyniodd 39.4% y cynnig – sy'n cyfateb i'r cyfartalog Cymru gyfan. Fodd bynnag, dim ond 30.2% a dderbyniodd wasanaeth yn y pen draw, yn erbyn cyfartalog ar draws Cymru o 63.8%. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn deall a rhoi sylw i'r gyfradd isel hon o ddarparu gwasanaeth.

Dengys y gyfradd isel o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty a dangosyddion ar gyfer rhyddhau'n fwy diogel o'r ysbyty, fod cynnydd gyda phrydlondeb ac ansawdd asesiadau'n parhau. Gan y Cyngor y mae'r gyfradd isaf yng Nghymru o hyd o oedi cyn rhyddhau, ar 0.7 am bob mil.

Plant

Mae gwefan Cyngor Conwy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau i blant a theuluoedd. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu'n rhoi gwybodaeth i bobl nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i dderbyn gwasanaeth, ond sydd er hynny angen peth cymorth ac arweiniad arnynt. Mae'r wefan yn cyfeirio ymholwyr ymlaen ac yn rhoi manylion cyswllt. Mae'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r gwasanaeth cymorth a therapiwtig mewnol wedi cael ei gysoni â datblygu Tîm Ymyriadau Teuluol i sicrhau goruchwyliaeth therapiwtig o achosion. Y nod yw darparu ymateb holistig i blant a'u teuluoedd, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr. Fodd bynnag, lleisiwyd pryderon ynghylch pa mor brydlon y mae pobl ifanc yn derbyn y gwasanaeth. Er bod ymgynghori deufisol â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, mae problemau gyda phrydlondeb yr ymyriadau gan y

tîm yn cael effaith andwyol ar gynllunio gofal pobl ifanc. Mae angen mwy o waith i sicrhau bod amcanion y Tîm Ymyriadau Teuluol yn dwyn ffrwyth.

Mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad gwasanaethau plant wedi gwella. Mae prydlondeb gydag adolygu cynlluniau i blant mewn angen wedi gwella i 86.8%, ac i 97.9% ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn erbyn cyfartalog Cymru gyfan o 78.8% am y naill a 95.9% am y llall. Mae gwelliant amlwg hefyd wedi bod yng nghyfran yr asesiadau craidd a gwblheir o fewn 35 diwrnod gwaith, o 74.2% yn 2012-13 i 89.9% yn 2013-14.

Mae ychydig o leihad wedi bod yn nifer yr asesiadau cychwynnol a gwblheir o fewn saith diwrnod er yn parhau i fod yn well na'r cyfartalog drwy Gymru. Mae darparu cynllun gofal i blant sy'n derbyn gofal am y tro cyntaf wedi codi i 91.2%, sydd ychydig yn well na'r cyfartalog Cymru gyfan, ond wrth i rai awdurdodau lwyddo i gyrraedd 100% mae'n faes lle gellir gwneud cynnydd pellach. Roedd arolygiad plant sy'n derbyn gofal CSSIW wedi amlygu rhai problemau ansawdd gyda chynllunio gofal, gyda'r detholiad o samplau'n dangos diffyg manylder ynghylch sut y byddai'r canlyniadau i'r person ifanc yn cael eu cyflawni. Mae ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant ar 'gyfweld ysgogiadol' sydd wedi'i ddylunio i hwyluso cynllunio seiliedig ar ganlyniadau a bydd angen i'r Cyngor fonitro effaith yr hyfforddiant hwn.

Mae'r Cyngor wedi gofyn i bobl sydd wedi gadael gofal ddod yn 'ffrindiau' (buddies) i bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac mewn perygl o fynd ar goll, gan weithio ochr yn ochr â phlismen sy'n gyfrifol am fonitro a lleihau'r peryglon i bobl sy'n mynd ar goll mewn gofal. Un o egwyddorion y prosiect hwn yw bod pobl ifanc mewn gofal efallai'n fwy parod i gysylltu â rhywun am gyngor a chefnogaeth os cawsant brofiadau tebyg, gan felly dderbyn cymorth ymarferol a lleihau risg. Mae'r 'ffrindiau' hyn wedi cael cynnig hyfforddiant cysylltiedig a chyfle i ennill canlyniadau gwell iddynt eu hunain.

Meysydd cynnydd

- Mwy o adolygiadau o gynlluniau gofal ar gyfer oedolion.
- Prydlondeb adolygu cynlluniau ar gyfer plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal.
- Asesiadau craidd yn cael eu cwblhau o fewn 35 diwrnod.
- Mwy o gymorth a chymorth mwy creadigol i blant sy'n derbyn gofal.

Meysydd ar gyfer gwella

- Adolygiadau mwy prydlon a chynhwysfawr o'r trefniadau gofal i oedolion mewn gofal preswyl.
- Ymyriadau mwy prydlon gan y tîm CAMHS ar gyfer pobl ifanc.
- Mwy o ffocws ar ganlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.

Y gwasanaethau a ddarperir

Oedolion

Nod y Cyngor yw datblygu gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth. Bellach mae pedwar o gyfleusterau gofal ychwanegol fel bod pobl hŷn yn gallu parhau i fyw'n annibynnol. Mae'r Cyngor yn gweithio â Chymdeithas Dai Clwyd Alyn i ddatblygu gwasanaeth tebyg ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Mae'r broses dyrchafu pryderon wedi arwain at gynrychiolaeth amlasiantaethol fel y gellir casglu pryderon ynghyd, a chymryd camau effeithiol i'w datrys. Mae'r tîm monitro contractau wedi bod wrthi'n galed yn sicrhau ansawdd y gwasanaethau rheoledig a gomisiynir lle mae pryderon yn eu cylch. Mae gan y tîm drosolwg da ar ble mae angen gwella ansawdd. Byddai modd gwella sicrhau ansawdd gwasanaethau gofal ymhellach gyda dull mwy rhagweithiol er mwyn adnabod yr arwyddion rhybuddio'n fuan ac ymyrryd yn gynt. Dylai'r ffaith bod rheolwr sicrhau ansawdd wedi'i benodi'n ddiweddar helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cadw golwg dda ar y sefyllfa.

Dengys yr adroddiad cwynion y gwnaed 42 o gwynion am y gwasanaethau oedolion eleni, yr un faint ag yn 2012-13, ac o'r rhain symudodd bedair ymlaen at gam dau'r broses sef ymchwiliad annibynnol. Ymdriniwyd â llai na 40% o'r rhain o fewn deg diwrnod gwaith ac roedd 28% y tu allan i'r terfyn amser o fwy nag 20 diwrnod. Dylai'r Cyngor feddwl am ffyrdd o wella prydlondeb ei ymateb.

Mae'r Cyngor wedi dadansoddi'r cwynion ac yn gweithredu newidiadau o ganlyniad i wersi a ddysgwyd. Dengys yr adroddiad fod 232 neges ganmol wedi dod i law, yn bennaf yng nghyswllt pobl hŷn a gwaith cymdeithasol mewn ysbyty.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu strategaeth i fynd i'r afael ag anghenion siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd neu ofalwyr, gyda'r cynllun gweithredu Mwy Na Geiriau'n darparu fframwaith cryfach i nodi'r camau ymarferol a gymerwyd i sicrhau bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal.

Plant

Mae Conwy'n darparu naw gwasanaeth i blant a reoleiddir gan CSSIW, pedwar gwasanaeth i blant o dan wyth oed, tri gwasanaeth preswyl i blant, gwasanaeth mabwysiadu a gwasanaeth maethu. Gwnaed argymhellion i wella'r gwasanaeth mabwysiadu o ran cefnogi mabwysiadwyr a chafodd hysbysiadau diffyg cydymffurfio eu cyhoeddi ynghylch amddiffyn plant, meddyginiaeth a lefelau staffio yng nghartref plant Ti'r Na Nog. Mae'r Cyngor wedi gweithredu i ddatrys y problemau ac mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio. Roedd yr arolygiadau o'r holl wasanaethau eraill yn gadarnhaol iawn, gyda thystiolaeth dda o ddarparu gofal

o safon uchel. Mae sicrhau ansawdd y gwasanaethau hyn wedi gwella ers y llynedd, gyda mwy o ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ôl arolygiad CSSIW o'r gwasanaeth plant sy'n derbyn gofal, ar y cyfan roedd pobl sy'n gadael gofal yn bositif ynghylch y cymorth a gawsant, yn enwedig gan eu cynghorwyr personol oedd hefyd yn cael eu gweld fel eiriolwyr ar eu rhan. Fodd bynnag, roedd pwysau llwythi achosion a throsiant staff yn golygu bod rhai pobl ifanc wedi profi oedi cyn i gynghorwr personol gael ei ddyrannu iddynt, neu wedi cael sawl newid gweithiwr. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu i atal argyfwng i bobl ifanc sy'n gadael gofal a'i hyblygrwydd yn caniatáu dull seiliedig ar ganlyniadau. Oherwydd bod y bobl ifanc yn gweld cryn werth yn y gwasanaeth hwn, byddai'n ddoeth ei ddatblygu ymhellach.

Darperir cefnogaeth i helpu pobl sy'n gadael gofal i mewn i addysg bellach neu waith, gydag wyth newydd adael gofal yn mynd i brifysgol y llynedd a disgwylir i ddau arall fynd eleni. Dywedodd y cynghorwyr personol fod cysylltiadau rhagorol gyda Gyrfa Cymru.

Er bod y Cyngor yn adrodd bod 100% o'i bobl sy'n gadael gofal yn byw mewn llety di-frys yn 19 oed, mae rhai pobl sy'n gadael gofal yn cael trafferth dod o hyd i lety'n syth ar ôl troi 18 oed. Mae hyn yn broblem arbennig lle mae pobl, oherwydd eu hymddygiad, wedi gwneud eu hunain yn 'fwriadol ddigartref'. Dywed y cynghorwyr personol nad yw bob tro'n bosibl negodi pan droir pobl allan o'u llety ac y gall y cyfnod rhybudd weithiau fod cyn lleied â 24 awr. Mae cynghorwyr personol yn ffynhonnell wych o wybodaeth am y problemau sy'n effeithio ar bobl ifanc sy'n chwilio am lety addas, ac mewn sefyllfa dda i rannu gwybodaeth werthfawr a helpu i greu proffil o'r anghenion.

Yn ôl yr arolygiad plant sy'n derbyn gofal, nid oedd yr ystod o leoliadau oedd ar gael yn ddigon i ddiwallu anghenion cymhleth rhai o'r bobl ifanc. Roedd staff yn cydnabod nad oedd yr anghenion bob amser yn cael eu 'paru' gyda sgiliau'r gofalcwyr maeth. Er bod yr awdurdod wedi bod yn gweithio i gynyddu'r ystod o ofalcwyr maeth mewnol, mae'n parhau i fod yn gryn her.

Eleni, mae adroddiad cwynion Conwy'n nodi y derbyniwyd 19 o gwynion statudol am y Gwasanaethau Plant ac mai dim ond 57.1% ohonynt a gafodd eu datrys o fewn yr amser. Y tîm dyletswydd ac asesu oedd yn destun y rhan fwyaf o'r cwynion ac mae'r Cyngor wedi dadansoddi'r rhain. Bwriedir trefnu hyfforddiant i helpu mewn rhai meysydd, ond nid yw'n glir sut y bydd y Cyngor yn sicrhau cyfradd ymateb well i alwadau dyletswydd - sy'n achosi rhwystredigaeth i ymholwyr ac yn broblem sydd angen gweithredu arni ers y llynedd.

Meysydd cynnydd

- Ystod gynyddol o gyfleusterau byw yn y gymuned i helpu oedolion i gadw eu hannibyniaeth.
- Lleoliadau sefydlog i blant sy'n derbyn gofal.
- Ymgynghori gyda mwy o bobl ifanc a theuluoedd ar ansawdd y gwasanaethau preswyl a ddarperir.

Meysydd ar gyfer gwella

- Yr amser a gymerir i brosesu cwynion am y gwasanaethau oedolion a phlant.
- Proffilio anghenion plant sy'n derbyn gofal sy'n chwilio am lety fel bod cydddealltwriaeth o'r problemau.
- Cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol.
- Effeithiolrwydd yr ymatebion cychwynnol i ymholwyr am wasanaethau plant.

Yr effaith ar fywydau pobl

Oedolion

Dengys yr adroddiad blynyddol ar Amddiffyn Plant fod gwaith PoVA wedi cynyddu o 245 o atgyfeiriadau i 354 y llynedd. Gallai hyn fod oherwydd bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r mater drwy'r cyfryngau, ond hefyd mewn ymateb i ddigwyddiadau diogelu lleol. Mae dolenni hefyd ar wefan y Cyngor i rai sydd am leisio pryder, a thaflenni yn y derbynfeydd. Dengys data Conwy fod 65% o'r atgyfeiriadau hyn ar gyfer pobl 65+ oed a bod 165 (47%) yn ymwneud â phobl yn byw mewn cartrefi gofal. Er bod y data hwn yn ddefnyddiol i bwrpas dadansoddi a chynllunio, mae'n cynnwys gwallau sy'n awgrymu bod angen adolygu'r ffordd y cofnodir gwybodaeth. Mae'r Cyngor wedi nodi bod y cynnydd yn y cydweithio â BCUHB a'r heddlu'n llwyddiannau allweddol eleni ac mae CSSIW wedi mynychu amryw o gyfarfodydd lle'r oedd cydweithio effeithiol yn amlwg.

O dan y weithdrefn PoVA bresennol, nid oes raid i'r Cyngor hysbysu pobl a gyhuddir o'r canlyniad. Arweiniodd hyn at ddwy gŵyn i'r Cyngor gan bobl a brofodd drallod a chaledi ariannol oherwydd na wyddent beth oedd y penderfyniad terfynol. Efallai y byddai'n syniad i'r Cyngor adolygu ei broses i sicrhau y gwneir hyn yn y dyfodol. Parheir i ddarparu hyfforddiant PoVA a chysiau cysylltiedig eraill i staff mewnol a rhai sy'n gweithio i ddarparwyr allanol.

Awgryma data'r Cyngor iddo dderbyn 19 o geisiadau o dan y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid y llynedd, ac na chafodd yr un ei asesu i fod angen ei awdurdodi gan y Llys Gwarchod. Mae adroddiad blynyddol PoVA yn cadarnhau bod y Sir yn disgwyl mwy o geisiadau eleni, yn dilyn y dyfarniad diweddar a

newidiodd y diffiniad o bobl y tybir eu bod yn colli eu rhyddid. O ganlyniad, bydd angen hyfforddiant ychwanegol i weithwyr proffesiynol ar gwblhau'r asesiadau arbenigol a thîm mwy o aseswyr lles gorau.

Plant

Mae ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn rhan bwysig o'r broses o ddiogelu a hybu lles. Mae cynnydd mawr wedi'i wneud yn y cyswllt hwn gan godi o 76.8% i 90.1% yn 2013-14, gan roi cyfle i fwy o blant godi mater neu broblem lle bo angen. Mae cynlluniau llwybr yn ganolog i roi cyfle i bobl ifanc gyfleu eu dymuniadau a'u dyheadau am y dyfodol - a sut y gellir eu helpu i'w gwireddu. Mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn y maes hwn i 97.4%.

Yn yr arolygiad plant sy'n derbyn gofal, darganfu CSSIW fod y gwasanaethau plant wedi buddsoddi mewn hyfforddiant gwasanaeth cyfan ar offeryn fframwaith dadansoddi. Mae'r offeryn hwn yn cynnwys system sgorio i gefnogi cyd-ddealltwriaeth o'r angen a'r risg ac yn fan cychwyn ar gyfer mesur cynnydd yn ei erbyn. Mae staff yn glir bod diogelu'n flaenoriaeth ac mae ganddynt ystod o hyfforddiant ar gael i'w helpu yn eu hymarfer amddiffyn a diogelu plant.

Mae gostyngiad sylweddol, sy'n destun cryn ofid, o 96.1% i 78.1% wedi bod yn nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhelir o fewn 15 diwrnod i'r drafodaeth strategol. Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu yn ei le i geisio ateb y broblem ac mae angen ei fonitro'n ofalus.

Meysydd cynnydd

- Cydweithio â phartneriaid iechyd.
- Ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal
- Cynlluniau llwybr yn eu lle.

Meysydd ar gyfer gwella

- Adolygu'r system rheoli gwybodaeth i sicrhau cywirdeb y data.
- Adolygu'r ffordd y dilynrir y broses PoVA i sicrhau bod pawb yn cael gwybod beth sy'n digwydd.
- Prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol.

Capasiti

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol

Ymwelodd CSSIW ag adran hyfforddiant y Cyngor a gwelodd dystiolaeth o'r ystod dda o hyfforddiant a datblygu sydd ar gael, gan gynnwys pynciau arbenigol lle nodwyd bod angen eu datblygu. Cynigir nifer o feysydd hyfforddiant mewn pynciau fel Diogelu, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a DoLS yn rheolaidd i staff y Cyngor ac i gydweithwyr yn y sectorau annibynnol a gwirfoddol. Darperir hyfforddiant i ymarferwyr sy'n cefnogi gweledigaeth y Cyngor o hyrwyddo annibyniaeth a galluogi. 'Cyfweld ysgogiadol' yw un o'r cyrsiau hyn ac fe'i dyluniwyd i sicrhau asesiadau angen seiliedig ar ganlyniadau ac mae 'Hyfforddiant Galluogi' hefyd wedi'i dreialu. Mae'r Cyngor yn y broses o ddatblygu strategaeth gweithlu i'r sector gofal cymdeithasol.

Mae peth lleihad wedi bod mewn capasiti rheoli yn 2013-14 wrth i wasanaethau gael eu cysoni er bod swyddi allweddol wedi cael eu llenwi. Mae gan y Cyngor weithlu cymharol sefydlog ac mae lefel dda o brofiad yn y timau. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da gyda lleihau absenoldebau hirdymor a bydd y gwaith hwn yn parhau.

Mae ymarferwyr y gwasanaethau plant yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy oruchwyliaeth a chyswllt dyddiol â'u rheolwyr. Roedd tystiolaeth o secondiadau'n cael eu cynnig i ehangu dyheadau gyrfaol pobl, a bod pobl sy'n gadael gofal ac yn rhan o'r grŵp 'Ffrindiau' (*Buddies*) yn cael cynnig hyfforddiant i ategu a goleuo eu rôl.

Dylai'r Cyngor gryfhau ei systemau o ddadansoddi gwaith comisiynu, yn enwedig ar gyfer lleoliadau preswyl a nyrsio lle nad oes gwybodaeth barod ar gael am gapasiti yn y sector. Bydd y wybodaeth yma'n greiddiol i asesu'r farchnad gofal cymdeithasol.

O ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor, mae'n glir y bydd angen gwneud arbedion pellach. Mae'r her o reoli cyfnod o newid aruthrol yn sicr o barhau. Bydd angen monitro capasiti'r Cyngor i wireddu ei ddyheadau'n agos i sicrhau bod y rhaglen drawsnewid yn llwyddo.

Meysydd cynnydd

- Ystod yr hyfforddiant sydd ar gael a pha mor aml y caiff ei ddarparu.
- Boddhad staff yn y gwasanaethau plant.

Meysydd ar gyfer gwella

- Cyflawni dadansoddiad o waith comisiynu a datblygu strategaeth gomisiynu.

Rhoi cyfeiriad

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd dros y deuddeg mis diwethaf o dan yr arweinyddiaeth bresennol. Mae cynnydd wedi bod gyda thrawsnewid gwasanaethau a mwy o bwyslais ar ddiogelu, galluogi a chynnal annibyniaeth. Mae rhaglenni hyfforddiant cysylltiedig a diweddarau staff yn helpu i sicrhau cydddealltwriaeth o amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad. Sefydlwyd fforwm staff gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r gweithlu arno, i roi cyfle i gynnal deialog rhwng y cyfarwyddwr a'r staff. Dangosodd gyfweiliadau ag ymarferwyr yn ystod yr arolygiad fod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gwybod ym mha gyfeiriad y mae pethau'n mynd. Mae'r berthynas hefyd wedi gwella â BCUHB er bod y Cyngor yn cydnabod bod angen cynnydd pellach.

Mae'r rhaglen drawsnewid wedi arwain at nifer o strategaethau a chynlluniau gweithredu cysylltiedig, gyda chynnydd y rhain yn cael ei fonitro gan y bwrdd prosiectau a fynychir gan yr Aelod sy'n dal y portffolio gwasanaethau cymdeithasol a chynrychiolydd o'r pwyllgor craffu. Y bwrdd hwn sy'n ystyried cynnydd y prosiectau a'r rhaglenni sydd yna'n cael ei fwydo'n ôl yng nghyfarfodydd misol y rheolwyr gwasanaeth gan roi digon o gyfle i herio.

Mae hyn yn amser heriol i'r Cyngor wrth iddo geisio meithrin diwylliant newydd o ymyriadau gwaith cymdeithasol a delio ar yr un pryd â'r ansicrwydd anochel a'r anesmwythyd a achosir gan newid a chyfyngiadau ariannol. Gwnaed newidiadau i'r strwythur rheoli, ac mae cyfrifoldebau'r uwch-reolwyr, gan gynnwys y cyfarwyddwr, wedi ehangu, gan awgrymu bod blwyddyn heriol o flaen yr unigolion hyn.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i leihau ei gostau gweithredu a'i orbenion a bydd am sicrhau na fydd hyn yn amharu ar ei allu i lunio, datblygu a pharhau i wella ansawdd gwasanaethau yng Nghonwy.

Meysydd cynnydd

- Mwy o lwybrau craffu i brofi cynnydd y rhaglen drawsnewid.
- Mwy o gyfleoedd i gyfathrebu amcanion a chyfeiriad i staff rheng flaen.

Meysydd ar gyfer gwella

- Parhau i ddatblygu'r berthynas â BCUHB er mwyn darparu canlyniadau clir i bobl sydd angen gofal a chymorth arnynt.